# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (261)

### Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2007

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

**2.00pm**
**Eitem 1**

**- Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 10 eu grwpio.

…………………………………

**3.03pm**
**Cwestiwn Brys**

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ddatganiad am y swyddi a gollwyd yn ffatri brosesu twrcïod Cranberry Foods Cyf. yn y Fenni?

…………………………………

**3.11pm**
**Eitem 2 - Datganiad Busnes Drafft**

…………………………………

**3.20pm**
**Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Bumed Adroddiad**

**Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru**

……………………………

## 3.52pm
## Eitem 4 - Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007

### NDM3564 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 0 | 28 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

### NDM3565 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 0 | 40 |

Derbyniwyd y rheoliadau.

……………………………

*Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.*

## 3.53pm
## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM3566 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Hysbysiadau o Fasnachu Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru) 2007, a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Hysbysiadau o Fasnachu Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

2 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

3 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2007.

4 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

5 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

6 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Taliadau i Bersonau sy’n darparu Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Taliadau i Bersonau sy’n darparu Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2007 yn cael eu

gwneud yn unol â:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

7 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ynys Môn) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ynys Môn) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

…………………………………

## 3.54pm
## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007

### NDM3567 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.

**NDM3568 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol â

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007; ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

……………………………

## 3.54pm
## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007

**NDM3569 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi cynigion wedi'u prisio i addasu'r cyfyngiadau cyfalaf i gynyddu'r budd i'r bobl dlotaf yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1 i egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 6 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 1 i egwyddor y rheoliadau:**

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau wedi'i ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 6 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau wedi'i ddiwygio.**

**NDM3570 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

*Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:*

**Gwelliant 1 - Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Yn adran 4 bod y ffigur *'£50,000'* yn cael ei roi yn lle'r ffigur *'£22,000.'*

-

**Diben**

Diben y gwelliant hwn yw cynyddu'r terfyn cyfalaf, y tu hwnt i'r hwn na chaiff awdurdodau lleol gyfrannu tuag at gostau gofal trigolion, o £21,500 i £50,000.

-

**Cost**

Byddai cost gweithredu'r gwelliant hwn rhwng £10m a £15m i awdurdodau lleol. Yn wyneb yr addewid a wnaed i gyllido cyfrifoldebau cenedlaethol a drosglwyddwyd i awdurdodau lleol, bydd y gost o weithredu'r gwelliant hwn, yn y pen draw, yn cael ei hysgwyddo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 11 | 28 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Yn adran 5(b), bod y ffigur *‘£50,000’* yn cael ei roi yn lle’r ffigur *‘£22,000.’*

-

**Diben**

Diben y gwelliant hwn yw cynyddu’r terfyn cyfalaf, y tu hwnt i’r hwn na chaiff awdurdodau lleol gyfrannu tuag at gostau gofal trigolion, o £21,500 i £50,000.

-

**Cost**

Byddai cost gweithredu’r gwelliant hwn rhwng £10m a £15m i awdurdodau lleol. Yn wyneb yr addewid a wnaed i gyllido cyfrifoldebau cenedlaethol a drosglwyddwyd i awdurdodau lleol, bydd y gost o weithredu’r gwelliant hwn, yn y pen draw, yn cael ei hysgwyddo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 12 | 28 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 9 | 49 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

**…………………………………**

## 4.07pm
## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**(Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007**

**NDM3571 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Thalu) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.

**NDM3572 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Thalu) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Thalu) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007; ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

..................................

## 4.09pm
## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007

**NDM3573 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3574 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007, yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

**………………………………**

*Trafodwyd y pedair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond cynhaliwyd pleidleisiau ar wahân.*

## 4.10pm
## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

**NDM3575 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd egwyddor y gorchymyn.**

**NDM3576 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Lles

Anifeiliaid (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r gorchymyn:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

**………………………………**

## Eitem 11 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

**NDM3577 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3578 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r rheoliadau:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

**………………………………**

## Eitem 12 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cwn Gwaith (Cymru) 2007

**NDM3579 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cwn Gwaith (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

*Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:*

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion) -** ***Ni chafodd y gwelliant ei gynnig***

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gynnal adolygiad blynyddol o’r bridiau a eithrir o’r gwaharddiad ar docio cynffonnau.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) - *Ni chafodd y gwelliant ei gynnig***

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am adolygu deddfwriaeth tocio cynffonnau ymhen 3 blynedd pryd y dylai tystiolaeth gadarn gymharol fod ar gael.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3580 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cwn Gwaith (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cwn Gwaith (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

*Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:*

**Gwelliant 1 - Lorraine Barrett (De Caerdydd a Penarth); Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Janice Gregory (Ogwr)**

Yn Atodlen 1, Rheoliad 3(1) (a) dileu "Ysbaengwn: O unrhyw frîd neu gyfuniad o fridiau", a rhoi yn ei le "Ysbaengwn: O’r bridiau canlynol: Llamgi Seisnig, Llamgi Cymreig a Sbaengi, ond nid cyfuniadau o fridiau."

-

**Diben**

Diben y gwelliant hwn yw cyfyngu ar y rhestr o fathau penodedig o gwn i’r bridiau o Ysbaengwn a nodir yn y gwelliant, a chael gwared ar gyfuniadau o fridiau o’r rhestr.

-

**Cost**

Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw gostau ychwanegol arwyddocaol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 2 | 21 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Lorraine Barrett (De Caerdydd a Penarth); Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Janice Gregory (Ogwr)**

Yn Atodlen 1, Rheoliad 3(1) (a) dileu "Daeargwn: O unrhyw frîd neu gyfuniad o fridiau", a rhoi yn ei le "Daeargwn: O’r bridiau canlynol: Daeargi Jack Russell, Daeargi Byrgoes, Daeargi Ardal y Llynnoedd, Daeargi Norfolk, ond nid cyfuniadau o fridiau."

-

**Diben**

Diben y gwelliant hwn yw cyfyngu ar y rhestr o fathau penodedig o gwn i’r bridiau o Ddaeargwn a nodir yn y gwelliant, a chael gwared ar gyfuniadau o fridiau o’r rhestr.

-

**Cost**

Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw gostau ychwanegol arwyddocaol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 3 | 20 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 24.2, byddai'r Gweinidog yn paratoi Gorchymyn drafft diwygiedig a fyddai'n cymryd i ystyriaeth y diwygiadau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad. O ganlyniad, ni chynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau diwygiedig.**

**……………………………..**

## Eitem 13 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

**NDM3581 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3582 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007; a

2. b) Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r rheoliadau:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

………………………………

## 4.41pm
## Eitem 14 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007

**NDM3583 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

*Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:*

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r goblygiadau ariannol difrifol i'r diwydiant amaethyddol o ganlyniad i addasu onglau rampiau ôl-gerbydau ffermydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 5 | 30 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 45 | 4 | 0 | 49 |

Derbyniwyd egwyddor y gorchymyn.

**NDM3584 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r gorchymyn:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 46 | 3 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

**……………………………**

## 4.32pm
## Eitem 15 - Cynnig i gymeradwyo The Legislative Reform (Local Authority Consent Requirements) (England and Wales) Order 2007 o dan Reol Sefydlog 26

**NDM3585 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 26:

Yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y gorchymyn, The Legislative Reform (Local Authority Consent Requirements) (England and Wales) Order 2007, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

*Mae priodoldeb y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno a'i e-bostio at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.*

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r gorchymyn:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

**……………………………**

## 4.53pm
## Eitem 16 - Cynnig i gymeradwyo The Home-Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2007 o dan Reol Sefydlog 25 Adran 3

**NDM3586 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, The Home-Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2007 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007; ac yn nodi Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r gorchymyn:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

**.................................**

*Trafodwyd y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond cynhaliwyd pleidleisiau ar wahân.*

## 4.54pm
## Eitem 17 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007

**NDM3587 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3588 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

……………………………

## Eitem 18 - Cynnig i gymeradwyo Health, Social Care and Well-being Strategies Guidance (Wales) 2007 o dan Reol Sefydlog 29

**NDM3589 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Health, Social Care and Well-being Strategies Guidance (Wales) 2007 y

gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y cyfarwyddiadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y cyfarwyddiadau.**

**NDM3590 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn cymeradwyo Health, Social Care and Well-being Strategies Guidance (Wales) 2007 [copi Saesneg yn unig] y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r cyfarwyddiadau:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cyfarwyddiadau.**

………………………………

*Trafodwyd y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond cynhaliwyd pleidleisiau ar wahân.*

## 4.56pm
## Eitem 19 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Lwfansau am Addysg a Hyfforddiant Parhaus) (Cymru) 2007 o dan Rheol sefydlog 29

**NDM3591 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Lwfansau am Addysg a Hyfforddiant Parhaus) (Cymru) 2007 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y cyfarwyddiadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y cyfarwyddiadau.**

**NDM3592 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn cymeradwyo Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Lwfansau am Addysg a Hyfforddiant Parhaus) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo'r cyfarwyddiadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cyfarwyddiadau.**

………………………………

## Eitem 20 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007 o dan Reol Sefydlog 24.27(iv)

**NDM3593 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3594 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007 yn cael eu gwneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Mawrth 2007.

*Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso’r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

**………………………………**

## 4.57pm
## Eitem 21 - Dadl ar Adroddiad Terfynol y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar Anghenion Addysgol Arbennig - Trefniadau Trosglwyddo

**NDM3595 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 6.6 (v):

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn dwyn y teitl, "Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Ychwanegol – Rhan 3: Trosglwyddo", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 0 | 40 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## Daeth y cyfarfod i ben am 5.41pm

………………………………

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 28 Mawrth 2007

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**